COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 9 MAI 2019, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | NA Burnett | DK Edwards | RM Granville |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JC Radcliffe | JC Spanswick |
| MC Voisey | CA Webster | AJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, JE Lewis, RME Stirman, J Parsons - Rheolwr Grŵp, Datblygu a/ac KJ Watts

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Lee Evans | Uwch Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

251. DATGANIADAU O FUDD

Gwnaed y datganiadau o fudd canlynol:-

Cynghorydd JC Radcliffe - P/19/148/FUL - Budd niweidiol oherwydd iddo siarad yn erbyn y cais ar ffurf gwrthwynebydd, a oedd wedi penderfynu ar yr eitem hon ymlaen llaw. Gadawodd y Cynghorydd Radcliffe y cyfarfod tra'r oedd y cais hwn yn cael ei drafod.

Cynghorydd RM Granville – P/19/59/FUL a P/18/868/FUL – Buddiannau niweidiol oherwydd iddo siarad yn erbyn y ceisiadau fel gwrthwynebydd, a oedd wedi penderfynu ar yr eitemau hyn ymlaen llaw. Gadawodd y Cynghorydd Granville y cyfarfod tra'r oedd y ceisiadau'n cael eu trafod.

Cynghorydd MJ Kearn - P/14/38/BCB - Budd niweidiol - fel Cadeirydd Cyngor Cymuned y Pîl ac oherwydd iddo gefnogi gwrthwynebiadau'r etholwyr lleol i'r cais. Gadawodd y Cynghorydd Kearn y cyfarfod tra'r oedd y cais hwn yn cael ei drafod.

252. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Cytuno dyddiad sef dydd Mercher 19 Mehefin (ac nid 31 Gorffennaf yn unol â manylion Agenda'r cyfarfod) gan y Pwyllgor ar gyfer archwiliadau safle arfaethedig sy'n codi yn y cyfarfod, neu a ddynodwyd gan y Cadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

253. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 28 Mawrth 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

254. SIARADWYR CYHOEDDUS

| Rhif y Cais Cynllunio | Safle | Siaradwyr |
|---|---|---|
| P/19/148/FUL | Cildaudy Farm | Aelod Lleol - Cyng. J Radcliffe<br>Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf - Cyng. M Jones<br>Ymgeisydd - Mr Paul Thomas, Landsker Childcare Ltd, Cildaudy Road, Y Goetre Hen |

255. TAFLEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y diwygiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried sylwadau hwyr a'r diwygiadau y mae angen darparu ar eu cyfer.

256. ARWEINIAD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi crynodeb Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y manylwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

257. P/19/148/FUL - CILDAUDY FARM, CILDAUDY ROAD, Y GOETRE HEN

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn amodol ar yr Amodau yn yr adroddiad i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

Cais

Newid defnydd i Gartref Preswyl 4 gwely i Blant

258. P/14/38/BCB - 40B STURMI WAY, VILLAGE FARM IND ESTATE, Y PÎL

PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar yr Amodau yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 12 yr adroddiad fel a ganlyn a'r Amod 13 ychwanegol:-

12. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes bod cynllun rheoli traffig wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo ar bapur gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun yn ceisio sicrhau nad oes traffig yn ciwio ar y briffordd unrhyw bryd tra bydd y safle ar waith a bydd yn cynnwys manylion yr holl fesurau fydd yn cael eu defnyddio i gyflawni'r amcan hwn a'r holl fanylion o ran sut bydd gweithrediad y cynllun cymeradwy'n cael ei fonitro. Bydd y cynllun cymeradwy'n cael ei weithredu arno wrth ddechrau'r defnydd manteisiol o'r safle a'i adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ydy'r cynllun cymeradwy'n gweithio'n effeithiol ac, os nad yw'n gweithio'n effeithiol, cytuno ar ba fesurau pellach sy'n ofynnol a allai gynnwys gosod Gorchmynion Rheoleiddio Traffig lle ystyrir bod angen hynny. Bydd y cynllun rheoli traffig yn parhau i fod ar waith cyhyd ag y defnyddir y safle.

    Rheswm: Er lles diogelwch y briffordd.

14. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau hyd nes i gynllun i ddarparu arwyddion cyfarwyddiadau sy'n cyfeirio traffig at y CRC gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ar bapur. Bydd y cynllun yn cynnwys arwyddion dwyieithog ar hyd y B4281 a choridorau'r A48. Bydd y cynllun arwyddion yn cael eu gweithredu mewn deunyddiau parhaol cyn dod â'r datblygiad i ddefnydd manteisiol.

Rheswm: Er lles diogelwch y briffordd.

Cais

Newid defnydd i Ganolfan Adfer Gwastraff y Cartref

259. P/19/59/FUL - DELFRYN, HEOL LAS, MAUDLAM

PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

Yn amodol ar ddiwygio Amodau 3 ac 8 yr adroddiad, fel a ganlyn:-

3. Bydd y llawr cyntaf uwchben y modurdy triphlyg yn cael ei defnyddio at ddiben llety gwyliau ac atodol yn unig ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall (gan gynnwys unrhyw ddiben yn Nosbarth C3 Atodlen Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gyfwerth â'r Dosbarth hwnnw mewn unrhyw offeryn statudol sy'n dirymu ac yn ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw gyda diwygiad neu hebddo).

Rheswm: Sicrhau bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadw rheolaeth effeithiol dros y defnydd o'r llety haf ar osod ac i atal y llety haf rhag cael ei ddefnyddio fel llety preswyl parhaol.

8. Bydd mynediad y dramwyfa i Delfryn yn cael ei gadw i isafswm o 3.65 metr am byth, oni y cytunir fel arall ar bapur gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er lles diogelwch y briffordd.

Cais

Newid defnydd y Llety Haf ar Osod uwchben y modurdy triphlyg; mae'r addasiadau i gymeradwyo P/16/539/FUL yn cynnwys newidiadau i'r gwydr, drws mynediad a gorffeniad ar ffurf to i'r cefn.

260. P/18/868/FUL - THE OLD BARN, MAWDLAM

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn amodol ar yr Amodau yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

Cais

Addasiadau ac estyniadau i'r strwythur presennol a thrawsnewid i 3 annedd.

261. APELIADAU

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r Apeliadau fel y manylwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, a dderbyniwyd ers ei adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor.

(2) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr Apêl ganlynol wedi rhoi cyfarwyddyd iddo gael ei GANIATÁU'N rhannol ac amrywio'r Hysbysiad Gorfodi (Atodiad A):-

| Rhif Côd | Testun yr Apeliadau |
| --- | --- |
| C/18/3216164 (1845) | Diffyg cydymffurfiaeth â chymeradwyaeth P/13/425/FUL School House, School Terrace, Gogledd Corneli. |

(3) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr Apeliadau canlynol wedi rhoi cyfarwyddyd eu bod yn cael eu GWRTHOD:-

| Rhif Côd | Testun yr Apeliadau |
| --- | --- |
| D/19/3220063 (1849) | Cadw ffens bren min main ar flaen ac ochr yr eiddo 28 Cemetery Road, Maesteg (Atodiad B.) |
| H/19/3221319 (1852) | Bwrdd hysbysebu ar gyfer ochr Jackson Cabs 4 Sunnyside, Pen-y-bont ar Ogwr. (Atodiad C.) |

262. COFNOD HYFFORDDI

PENDERFYNWYD: Bod adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau'n rhestru sesiynau hyfforddiant ar ddod i Aelodau fel rhan o'r Cofnod Hyfforddi Cymunedau.

263. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:53